

Cyngor Cymuned Llanelian (317)

Cofnodion cyfarfod Hydref 8, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7.20yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Thomas Jones, Ian Evans, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Hefina Williams, John Griffiths, Dafydd Griffiths, Cyng. Aled Jones, Carli Evans Thau (Clerc), aelod o'r cyhoedd.

Ymddiheuriadau: Cyng. Richard Jones

Yn absennol: David Gerrard, Cyng. Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Cyn cychwyn y cyfarfod, cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus bod y cyfarfod wedi ei alw'n gywir.

2 Datgan Diddordeb

Ian Evans – cais cynllunio Y Bedol
Dafydd Griffiths – ymateb i bolisi tyrbinau gwynt

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau –

Roedd pedwar cais i'w ystyried –

- HHP/2019/111 Felin Fach, Llys Dulas – dim gwrthwynebiad ond tynnu sylw at yr **amrywiaeth** o orffeniadau CT
- FPL/2019/242 Lletroed Fawr, Penysarn – dim sylw ond atgoffa CSYM bod y cyngor wedi gwrthwynebu'r cais gwreiddiol, roedd yr un pryderon yn sefyll sef mynediad, tir gwlyb/tamp, bywyd gwyllt. Gofynnwyd i CSYM am gadarnhad pam bu'r apel yn llwyddianus (cais cyntaf).
- FPL/2019/247 Bryn Eilian, Llanelian – dim gwrthwynebiad ond tynnu **sylw** bod llwybr cyhoeddus yn yr un lleoliad.
- ELE/2019/7 Ty Newydd, Nebo - cefnogi

6.2 Datblygiad Safle'r Bedol (FPL/2019/249)

Bu i Ian Evans adael yr ystafell tra bu trafod y cais. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod i gyd wedi cael cyfle i ddarllen y cais cyn y cyfarfod. Daw tri ebost gan aelodau'r gymuned yn nodi eu pryderon am y cais ac fe'u darllennwyd er gwybodaeth. CT

Roedd yr aelodau yn gwrthwynebu'r cais. Roedd yr aelodau am nodi yr anghysondeb ac anghywirdeb yn y cais sydd yn rhoi darlun anghywir. Roedd yr aelodau yn bryderus am allu system garffosiaeth y pentref - mae hyn yn cael ei nodi am pob cais cynllunio ym Mhenysarn heb son am ddatblygiad o'r maint yma. Roedd pryder hefyd am y mynediad arfaethiedig i'r safle a'r effaith byddai yn ei gael ar ddiogelwch ffordd a phroblemau parcio yn ardal Stad Dublin a Stad Tynrhos.

Y prif reswm am wrthwynebu'r cais fodd bynnag oedd nad oedd yr aelodau yn teimlo bod angen lleol am y nifer o dai sydd wedi eu cynnwys yn y cais. Mae nifer o dai wedi eu hadeiladu yn yr ardal ers cwblhau'r arolwg angen lleol, ac mae nifer o dai hefyd ar werth yn y gymuned. Mae'r cais yn or-ddatblygiad o'r safle ac yn ddatblygiad rhy fawr i'r pentref.

Gofynnwyd i Aled Jones alw'r cais ger bron pwyllgor cynllunio CSYM.

AMJ

6.3 Penderfyniadau –

Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn –
24C351 Fairwinds, Llanelian (sied amaethyddol) – gwrthod
FPL/2019/205 Bryn Mor, Nebo (addasu) – caniatad

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Dafydd Griffiths, eilio Ian Evans.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Materion Priffyrdd

- 4.1.1 Cadarnhaodd Aled Jones bod Alun Roberts wedi cytuno cwrdd a'r aelodau i drafod AMJ
cyflymder bysiau yn y pentref. Bydd yn cadarnhau dyddiad ac amser cyn gynted a phosib.
- 4.1.2 Cafwyd y data llawn ar gyfer yr arolwg cyflymder. Cytuno cysylltu ardan briffyrdd i ddiolch CT
am y wybodaeth a nodi bod y data yn cadarnhau pryderon cychwynnol yr aelodau am
gyflymder rhai cerbydau ar y ffordd osgoi a bod damwain yn disgwyl digwydd.
- 4.1.3 Cafwyd ymateb gan yr adran briffyrdd yn datgan nad oes manyldeb ar gyfer llenwi tyllau CT
yn y ffordd. Y clerch i anfon yr epost at yr aelodau er gwybodaeth.

4.2 Llwybrau Cyhoeddus – cafwyd epost yn diolch i'r cyngor cymuned am gynnal llwybrau'r ardal.

4.3 Baw Ci – cytuno byddai Hefina Williams yn tynnu llyniau fel tystiolaeth o'r baw ci ar Lon HFW
Tyddyn Waen er mwyn ei gyflwyno i'r warden gwn.

4.4 Cwn ar y traeth – nid oes gwaharddiad ar gwn ar y traeth. Cytuno gosod bocs bagiau CT
baw ci ger y llithrfa, a hefyd arwydd yn gofyn i bobl gadw eu cwn ar dennyn a glanhau ar
eu hol.

5 Adroddiadau Pwyllgorau

5.1 Caeau Chwarae – derbyniwyd ardoddiadau Medwyn Owen yn dilyn ei arolygon GH
diweddaraf. Rhoddodd y clerch fanylion cyswllt i Gordon Hayes ar gyfer cwmni o Fon sydd
wedi bod yn gweithio ar feinciau plastig yn ardal Llanbadrig er mwyn mesur a chael pris
am drwsio'r meinciau yn y gysgodfan ym Maes Llwyfo.

Cytuno gofyn i Richard Edwards a Dave Holdsworth am bris i dorri'r coed conifer yn y cae EH
chwarae. CT

Nododd y clerch bod y cytundebau torri gwair (y caeau chwarae, mynwent a llwybrau) i'w CT
hysbysebu ar gyfer 2020 ymlaen. Cytuno paratoi hysbyseb a manyldeb erbyn y cyfarfod
nesaf.

5.2 Llithrfa – nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd eto. CT

5.3 Mynwent – cafwyd wybod bod Scottish Power wedi bod yn torri coed sycamor ym CT
mynwent Eilian. Mae angen trefnu cyfarfod y pwyllgor yn fuan.

5.4 Cyllid a Pholisi – cytuno byddai Dafydd Griffiths ac Elfyn Hughes yn edrych ar ddatblygu DG
polisi amgylcheddol a'i gyflwyno i'r pwyllgor fel man cychwyn. EH

5.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985) – cynhaliwyd cyfarfod yr ymddiriedolwyr cyn cyfarfod y CT
cyngor. Bydd y cofnodion i'w dosbarthu er gwybodaeth.

5.6 Pwyllgorau Allannol –

5.6.1 Cafwyd grynodedb gan Ian Evans yn dilyn cyfarfod ardal Un Llais Cymru. Nododd bod
cyflwyniad wedi ei wneud i'r pwyllgor ar bwysigrwydd mynediad i wasanaethau ar-lein, a
bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn cael yr un cyfleon, dosbarthwyd gwybodaeth am
brosiect i sicrhau gwasanaeth band eang i ardaloedd er gwybodaeth.

Daethpwyd at sylw'r pwyllgor newidiadau arfaethiedig i bolisiau cynllunio drwy'r fframwaith
genedlaethol (polisi 10-) a fyddai yn gallu gweld tyrbinau gwynt enfawr dros y rhan
helaeth o'r ynys. Cafwyd gymhariaeth i gymuned Dryweryn gan mai darparu trydan i
weddi y DU fyddai tyrbinau o'r fath. Nododd Aled Jones bod CSYM yn erbyn y fath
datblygiad. Mae cyfle i'r cyngor ac unigolion ymateb i'r ddogfen. Nododd y clerch ei bod
wedi derbyn gohebiaeth gan Dafydd Idriswyn, cadeirydd y pwyllgor gyda'r manylion
perthnasol ac y byddai yn ei anfon i'r aelodau er gwybodaeth. Cytuno nad oedd y cyngor CT

yn erbyn ynni adnewyddadwy mewn egwyddor ond bod y cyngor yn erbyn maint a nifer y fath ddatblygiad. Cynnig Ian Evans, eilio Hefina Williams, pawb yn unfrydol. Bu Dafydd Griffiths ddatgan diddordeb a ni fu iddo bleidleisio.

Nododd Dafydd Griffiths ei fod wedi darllen y ddogfen fframwaith a'i fod o'r farn bod angen canllawiau penodol a mwy o sylw ar gyfer ardaloedd gwledig (polisi 4). Mae'r fframwaith hyd at 2040 felly mae angen ymateb rwan neu bydd colli cyfle yn y dyfodol. Cytuno byddai Dafydd Griffiths yn drafftio ymateb a'i gylchredeg drwy ebost. DG

Nododd Ian Evans bod gofynnion ar gynghorau ac aelodau yn newid hefyd, gyda mwy o ofyn ar hyfforddiant, gyda nifer o gyfleon i'w cael drwy e-ddysgu.

Cafwyd wybod bod angen cyflwyno sylwadau ar gyfer prosiect Morlais erbyn 31/10/2019 os am wneud hynnu.

7 Materion Ariannol

7.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£93.44 M Owen, arolygon caeau chwarae
£198.00 IG Jones, gwasanaeth cyflogau 2018/19
£675.72 Carli Evans Thau, cyflog gan gynnwys tal blynyddol Bosra
£208.70 Carli Evans Thau, costau Gorffennaf-Medi

7.2 Ceisiadau am Arian - Ni fu cais am gefnogaeth.

7.3 Archwiliad – derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr allannol wedi iddo gwblhau'r archwiliad. Nodwyd cynnwys yr adroddiad a diolch i'r clerc am ei gwaith.

8 Iechyd a Diogelwch

Dim.

9 Wylfa Newydd

Mae disgwyl penderfyniad ar y cais DCO 23/10/2019.

10 Gohebiaeth

Dim heb ei drafod yn barod.

11 Lon Las Mon

Cafwyd wybod gan Dafydd Griffiths bod Lon Las Mon wedi cysylltu ag o gyda gwybodaeth am y cynllun – amlinellwyd y prosiect sydd yn gobeithio trawsnewid y rheilffordd ar draws yr ynys yn lwybr aml-ddefnydd er gwybodaeth i'r rheini oedd yn bresennol. Awgrymwyd bod y Cyngor yn cysylltu ag Lein Amlwch i gadarnhau eu bwriad a'u cynlluniau ar gyfer y rheilffordd a chynnwys yr eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

12 Unrhyw Fater Arall

12.1 Safle Rehau – cafwyd ddiweddariad gan Aled Jones bod trafodaethau ynglyn a dyfodol y safle yn cymryd lle, a bod y trafodaethau hynnu yn gefnogol iawn. Bydd mwy o wybodaeth i ddod wrth i'r trafodaethau ddatblygu.

12.2 Parcio Stryd y Capel – trafodwyd y posibilrwydd o gael llinellau melyn ar hyd un ochr o'r lon drwy'r pentref i annog pobl i barcio ar yr un ochr; trafodwyd hefyd pryderon am barcio pob ochr i'r safleoedd bws, a'r posibilrwydd o gael system un ffordd drwy'r pentref.

13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Tachwedd 5 2019 i ddilyn cyfarfod Cronfa TMI sydd i'w gynnal am 6.30 o'r gloch
Bu'r cyfarfod orffen am 20.50

Arwyddwyd

Elfyn Hughes, Cadeirydd